Merthyr Tydfil College Limited

Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig

Adroddiad Blynyddol a

Datganiadau Ariannol am y flwyddyn yn gorffen

31 Gorffennaf 2018

Merthyr Tydfil College Limited Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018

Adroddiad y Cyfarwyddwyr (yn cynnwys adroddiad Strategol)	3 - 7
Datganiad Er Budd y Cyhoedd	8
Datganiad o gyfrifoldebau ymddiriedolwyr	9
Adroddiad Archwilwyr Annibynnol	10 - 12
Cyfrif Incwm a Gwariant	13
Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn	14
Mantolen	15
Datganiad Llif Arian	16
Polisïau Cyfrifyddu	17 - 19
Nodiadau i'r datganiadau ariannol	20 - 29

Adroddiad y Cyfarwyddwyr (yn cynnwys yr adroddiad Strategol) am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018

Mae'r cyfarwyddwyr yn cyflwyno'u hadroddiad a datganiadau ariannol archwiliedig Y Coleg Merthyr Tudful (a elwir 'y Cwmni' neu 'y Coleg') am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018. Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi i gydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006 a Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2015 ac yn unol â safonau cyfrifyddu perthnasol.

Prif weithgareddau
Mae'r Coleg yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Prifysgol De Cymru (PDC) a'r prif weithgareddau yw darparu addysg bellach, addysg uwch, dysgu yn seiliedig ar waith, hyfforddiant proffesiynol, ymgynghori a chyfleu mentrau'r Llywodraeth i ddiwydiant.

Adroddiad Strategol

Adolygiad busnes a datblygiadau'r dyfodol
Yn ystod y flwyddyn, cytunodd y Bwrdd ar gynllun strategol pum mlynedd wedi'i ddiweddaru sy'n disgrifio'r modd y bydd y Coleg yn datblygu. Erbyn 2018-19 bydd y Coleg yn ei bumed flwyddyn weithredol fel Coleg trydyddol ble bydd pob dysgwr ôl-16 o Ferthyr Tudful yn mynychu'r Coleg gan gymryd cymysgedd o gymwysterau academaidd a galwedigaethol. Dyma flaenoriaethau strategol y Coleg:

- Cryfhau ein henw ymhlith dysgwyr, rhieni, athrawon, cyflogwyr a chymunedau
- Cyfleu profiad dysgu eithriadol a chodi safonau cyflawni, llwyddiant a datblygiad
- Cael ein cydnabod fel Coleg egnïol a chynaliadwy
- Ymgysylltu'n gadarnhaol â dysgwyr, rhieni, athrawon, cyflogwyr a chymunedau.

Rheoli risg ariannol
Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddangos arferion gorau ym mhob maes o reoli risg ariannol a llywodraethu corfforaethol, gan ymlynu'n llwyr wrth yr egwyddorion a welir yn y Cod Ymarfer Llywodraethu ac Egwyddorion Cyffredinol, a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Cadeiryddion Prifysgol (CUC) i gyd-fynd â'u Canllawiau i Aelodau o Gyrff Llywodraethol Addysg Uwch, ym mis Tachwedd 2009.

Bwrdd Cyfarwyddwyr Y Coleg sy'n gyfrifol am y system o reolaeth fewnol ac am adolygu ei heffeithiolrwydd. Cynlluniwyd y system i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu cyflawni amcanion busnes a gall ond gynnig sicrwydd rhesymol ac nid llwyr yn erbyn camddatganiad neu golled o bwys.

Mae'r Coleg yn cynnal cofrestr risg sy'n ystyried risgiau busnes, gweithredol, cydymffurfio ac ariannol. Bydd y gofrestr yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan uwch-reolwyr, a chaiff proses rheoli risg y Coleg ei chyfuno gyda Phrifysgol De Cymru (rhiant-endid) y mae ei chanllawiau rheoli'n ymlynu wrth y cod cyfun fel y'i diwygiwyd gan Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain.

Cyfarfu'r Bwrdd Cyfarwyddwyr bum gwaith yn ystod y cyfnod adrodd. O ran trefniadau archwilio, er na chafodd Pwyllgor Archwilio'r Coleg ei sefydlu ar wahân, mae Pwyllgor Archwilio Prifysgol De Cymru, sy'n cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn, yn derbyn yn ffurfiol pob adroddiad ac adolygiad archwilio a gwybodaeth arall yn ymwneud â'r cwmni. Cafodd adroddiad blynyddol 2017-18 yr archwilwyr mewnol ei ystyried gan Bwyllgor Archwilio'r Brifysgol a hefyd gan Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg, a gymeradwyodd hefyd y cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2018-19.
Fel rhan o reolaeth risg ariannol a fframwaith reolaeth fewnol grŵp Prifysgol De Cymru, a amlygwyd yn natganiadau ariannol Prifysgol De Cymru, mae'r Coleg wedi cyflawni gwaith yn ystod y flwyddyn i ddatblygu ac ymgorffori'r system o reolaeth fewnol, yn cynnwys rheoli ariannol, gweithredol a risg, a gynlluniwyd i amddiffyn asedau ac enw da'r Coleg.

Yn seiliedig ar y cynllun strategol, mae Gweithrediaeth y Coleg (y tîm uwch-reolwyr) yn cyflawni adolygiad cynhwysfawr o'r risgiau y mae'r Coleg yn wynebu. Mae Gweithrediaeth y Coleg yn canfod systemau a dulliau gweithredu, yn cynnwys gweithredoedd ataliol penodol a ddylai liniaru unrhyw effaith posibl ar y Coleg. Yna rhoddir y rheolyddion mewnol ar waith a bydd arfarniad y flwyddyn ddilynol yn adolygu effeithlonrwydd a chynnydd yn erbyn gweithredoedd lliniaru risg. Yn ychwanegol i'r adolygiad blynyddol, bydd Gweithrediaeth y Coleg hefyd yn ystyried unrhyw risg a allai godi o ganlyniad i gyflawni gwaith mewn unrhyw faes newydd gan y Coleg.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr (yn cynnwys yr adroddiad Strategol) am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018 (parhad)

Mae cofrestr risg yn cael ei gynnal yn y Coleg sy'n cael ei adolygu pedair gwaith y flwyddyn gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr. Mae'r gofrestr risg yn nodi'r risgiau allweddol, y tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n digwydd, eu heffaith posibl ar y Coleg a'r gweithredoedd a gymerir i leihau neu liniaru'r risgiau. Caiff y risgiau eu blaenoriaethu gan ddefnyddio system sgorio gyson.

Canlyniadau
Gwarged y cwmni am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018 oedd £247K (2017: £194K).

Parhaodd sefyllfa arian a hylifedd y Coleg yn gryf drwy gydol y flwyddyn, gyda balans arian parod diwedd y flwyddyn yn well na'r nod gyda chymhareb gyfredol iach (asedau cyfredol yn erbyn atebolrwyddau cyfredol).

Dangosyddion Perfformiad Allweddol
Mae'r tri dangosydd perfformiad allweddol (KPI) canlynol yn berthnasol wrth asesu perfformiad dros y flwyddyn:

i) Gwarged - £247K (2017: £194K)

ii) Sefyllfa arian diwedd y flwyddyn - £4561K (2017: £3691)

iii) Cymhareb gyfredol – 2.53 (2017: 1.76)

Niferoedd myfyrwyr: Roedd recriwtio addysg bellach yn parhau'n gryf.

Ansawdd: Gwnaeth canlyniadau myfyrwyr wella'n sylweddol yn 2017-18 ac mae proffil ansawdd gadarn y Coleg yn un o'r cryfaf yng Nghymru. Cafodd y Coleg adroddiadau da gan ei fyfyrwyr addysg bellach yn 'Llais y Dysgwr' a gan ei fyfyrwyr addysg uwch yn 'Arolwg Cenedlaethol Boddhad Myfyrwyr'.

Iechyd a Diogelwch: Yn rhan o'r consortiwm dysgu'n seiliedig ar waith, cafodd y Coleg radd ardderchog; dangosodd yr archwiliad diweddaraf gan y Brifysgol ymagwedd gadarn tuag at reoli iechyd a diogelwch. Mae gan y Coleg gynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a nodir mewn adroddiadau archwilio a bwriedir cynnal y nesaf yng Ngwanwyn 2019.

Prif risgiau ac ansicrwydd
Amlinellir isod y prif risgiau sy'n wynebu'r Coleg. Nid yw pob ffactor yn llwyr o fewn rheolaeth y Coleg. Gall ffactorau eraill heblaw'r rhai a restrir isod hefyd gael effaith andwyol ar y Coleg.

Cymorth ariannol gan y Llywodraeth
Mae'r Coleg yn dibynnu gryn dipyn ar gymorth ariannol parhaol gan y llywodraeth. Yn 2018 roedd 85% o gyllid y Coleg yn y bôn wedi'i ariannu gan y cyhoedd a disgwylir i'r lefel yma o anghenion barhau. Nid oes sicrwydd y bydd polisi neu arfer y llywodraeth yn parhau yr un neu y bydd ariannu cyhoeddus yn parhau ar yr un lefelau neu ar yr un telerau.

Bydd y Coleg yn parhau i archwilio ffynonellau amgen o incwm mewn cydweithrediad â phartneriaid ac yn unigol. Caiff y risg hwn ei liniaru mewn sawl ffordd:

- Cyllido'n deillio o nifer o drefniadau contractiol uniongyrchol;
- Drwy sicrhau bod y Coleg yn drylwyr yn cyfleu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel;
- Ehangu addysg uwch o dan agenda ehangu mynediad CCAUC,
- Rhoi ffocws ar, a buddsoddiad sylweddol i gynnal a rheoli perthnasoedd allweddol gyda'r cyrff cyllido amrywiol; a
- Sicrhau bod y Coleg yn canolbwyntio ar y sectorau â blaenoriaeth hynny a fydd yn parhau i elwa ar ariannu cyhoeddus.

Difidendau
Mae'r cwmni'n un cyfyngedig trwy warant. Nid yw'r cyfarwyddwyr yn argymell talu difidend o ran y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018 (2017 – dim).

Datganiad o Lywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddangos arferion gorau ym mhob agwedd o lywodraethu corfforaethol. Mae'r crynodeb hwn yn disgrifio'r modd y mae'r Coleg wedi gweithredu'r egwyddorion a welir yng Nghod Llywodraethiant Corfforaethol y DU a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol ym mis Mehefin 2010. Ei fwriad yw helpu darllenwr yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol ddeall y modd y cafodd yr egwyddorion eu defnyddio. Ym marn y llywodraethwyr, mae'r Coleg yn cydymffurfio â holl ofynion y Cod, i'r graddau eu bod yn berthnasol i'r sectorau addysg bellach ac uwch, a'i fod wedi cydymffurfio drwy gydol y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018 a hyd at ddyddiad arwyddo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol.

Mae'r Coleg, o leiaf yn flynyddol, yn adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol.

Cyfarwyddwyr a'u diddordebau
Gwelir isod y cyfarwyddwyr cyfredol a'r rhai oedd â swydd yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad arwyddo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol:

Mrs H Mansfield OBE *	(Cadeirydd)
Mr S H Best	(Cadeirydd a ymddiswyddodd fis Awst 2017)
Mrs K N Burns*	
Mr G Chapman *	
Dr J. Graystone*	(ymddiswyddodd fis Awst 2018)
Mr A M Jenkins*	
Yr Athro J E Lydon	
Mr G Morgan*	
Ms R Moxey*	
Mr J T O'Shea	(ymddiswyddodd fis Medi 2018)
Ms L Braddock *	
Mr H R Williams	
Mrs Lisa Thomas	(penodwyd fis Medi 2018)

*cyfarwyddwyr anweithredol

Gweithgaredd Ôl-Fantolen
Ar 1 Awst 2018, daeth Cwmni Tydfil Training Cyfyngedig, cwmni elusennol yn ymwneud yn bennaf â chynnig hyfforddiant dysgu'n seiliedig ar waith, i feddiant y Coleg. Yn ogystal, mae'r sefydliad yn cyfleu contractau eraill yn ymwneud ag addysg a chyflogaeth ar gyfer sefydliadau megis Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful, CGGC ac Ymddiriedolaeth y Tywysog.

Roedd trosiant Cwmni Tydfil Training am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018 tua £948,000 a'i asedau net, fel y'u cofnodwyd yn y cyfrifon drafft, tua £850,000 wrth ddod i feddiant y Coleg. Ers dod i feddiant y Coleg, mae timau rheoli'r Coleg a Chwmni Tydfil Training wedi bod yn cydweithio i elwa i'r eithaf ar y manteision i'r ddau barti. Drwy gyfuno ein hadnoddau a'n sgiliau, bydd yn rhoi'r potensial mwyaf i'r corff newydd fanteisio i'r eithaf ar y cynnig gan y contract "Cymru'n Gweithio" a gomisiynwyd yn ddiweddar.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr (yn cynnwys yr adroddiad Strategol) am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018 (parhad)

Gweithwyr
Bydd ceisiadau am gyflogaeth gan bobl anabl bob amser yn cael eu hystyried yn llwyr, gan ystyried cymwysterau a galluoedd priodol yr ymgeisydd dan sylw. Petai aelodau o staff yn dod yn anabl, byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau y byddai eu cyflogaeth yn y cwmni'n parhau ac y byddai'r hyfforddiant priodol yn cael ei drefnu. Polisi'r cwmni yw y bydd hyfforddiant, datblygu gyrfa a dyrchafiad person anabl, hyd y gellid, fod yr un yn union â pherson nad yw'n dioddef anabledd.

Mae ymgynghori gyda gweithwyr neu eu cynrychiolwyr wedi'i gyflawni, gyda'r nod o sicrhau fod eu barn yn cael ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau sy'n debygol o effeithio ar eu buddiannau. Mae'r cwmni'n aelod o Fforwm Cydraddoldeb Prifysgol De Cymru, a'i is-grwpiau. Mae cyfathrebu gyda'r holl weithwyr yn digwydd drwy gyfarfodydd bob tymor, a negeseuon e-bost yn ôl y galw.

Datganiad o gyfrifoldebau cyfarwyddwyr
Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad y Cyfarwyddwyr (yn cynnwys yr adroddiad strategol) a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith a rheoliadau perthnasol.
Mae cyfraith cwmnïau yn mynnu bod cyfarwyddwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi datganiadau ariannol y cwmni yn unol â Deddf Cwmnïau 2006, y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Safonau Cyfrifyddu perthnasol eraill (Ymarfer Cyfrifyddu Cyffredinol y Deyrnas Unedig). Yn ychwanegol, o fewn telerau ac amodau'r Memorandwm Ariannol a gytunwyd rhwng y cwmni a'r Brifysgol (Memorandwm Ariannol), mae disgwyl i'r cyfarwyddwyr baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol ar gyfer pob cyfnod cyfrifyddu sy'n rhoi golwg cywir a theg o'r sefyllfa sydd ohoni yn y cwmni ac o'r gwarged neu'r diffyg yn y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, disgwylir i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu priodol a'u defnyddio'n gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ofalus;
- datgan os cafodd Safonau Cyfrifyddu'r DU perthnasol eu dilyn, yn amodol ar unrhyw gam perthnasol a ddatgelir a'i egluro yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei fod yn anaddas tybio y bydd y cwmni'n parhau mewn busnes.

Cymerodd y cyfarwyddwyr gamau rhesymol i fodloni eu cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- sicrhau fod cronfeydd Llywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio'n unig ar gyfer y pwrpas y'u rhoddwyd ac yn unol â'r Memorandwm Ariannol ac unrhyw amodau y gall Llywodraeth Cymru eu pennu o bryd i'w gilydd;
- sicrhau bod rheolyddion ariannol a rheoli addas mewn grym i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus a chronfeydd o ffynonellau eraill;
- diogelu asedau'r cwmni a rhwystro a chanfod twyll ac anghysondebau eraill gan ddiogelu rheolaeth economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a gwariant y cwmni.

Indemniadau'r cyfarwyddwyr
Prynodd y cwmni yswiriant atebolrwydd cyfarwyddwyr a swyddogion a'i gynnal drwy'r flwyddyn ariannol.

Roedd hwn hefyd mewn grym ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr (yn cynnwys yr adroddiad Strategol) am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018 (parhad)

Darparu gwybodaeth i archwilwyr
Yn achos pob cyfarwyddwr mewn swydd ar y dyddiad y cymeradwyir adroddiad y cyfarwyddwyr, mae'r canlynol yn berthnasol:

(a) cyn belled ag y bo'r cyfarwyddwr yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni'n ymwybodol ohoni; ac

(b) mae ef/hi wedi cymryd pob cam y dylid fod wedi'i gymryd fel cyfarwyddwr er mwyn gwneud ef / hi ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau fod archwilwyr y cwmni'n ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Archwilwyr Annibynnol

Mae'r archwilwyr annibynnol, PricewaterhouseCoopers LLP, wedi dweud eu bod yn barod i barhau yn y swydd, a bydd cynnig ynghylch eu hailbenodi yn cael ei roi gerbron y Bwrdd mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Yn ôl gorchymyn y bwrdd

Ysgrifennydd y Cwmni
W D Callaway

Tachwedd 2018

Datganiad Er Budd y Cyhoedd am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018

Mae Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig yn elusen gofrestredig. Y cyfeiriad cofrestredig yw Coleg Merthyr Tudful, (Prifysgol De Cymru), Trefforest, Pontypridd, CF37 1DL a'r rhif cofrestredig yw 1140289. Mae aelodau'r Bwrdd yn gyfarwyddwyr ar gyfer Deddf Cwmnïau 2006 ac maent hefyd yn ymddiriedolwyr o'r Elusen ac o'r herwydd rhaid iddynt roi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau am fudd y cyhoedd a'i ganllawiau atodol am ddatblygu addysg er budd y cyhoedd.

Amcanion Elusennol
Mae'r Coleg yn hyrwyddo datblygu addysg a dysgu er budd y cyhoedd. Mae hefyd yn darparu, yn cynnal ac yn gwella cyfleusterau perfformiad er budd y gymuned leol.

Mae'r Coleg yn sylweddoli'n iawn ei gyfrifoldeb er budd y cyhoedd ac felly, yn sicrhau fod hyn wedi'i wreiddio yn ei holl weithrediadau i gynnig gwasanaethau llwyr gynhwysol.

Cyflawni amcanion elusennol
Buddiolwyr
Mae niferoedd y myfyrwyr yn y Coleg tua 3,200 o ddysgwyr mewn gwahanol ddulliau astudio, 2,200 llawn amser a 1,000 rhan amser. Y prif fuddiolwyr yw myfyrwyr y Coleg sy'n cael hyfforddiant uniongyrchol o safon uchel mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau. Er hynny, mae buddiolwyr yn ymestyn o fyfyrwyr cyn iddynt ddod i'r Coleg (o oed pedair ar ddeg i fyny) i gyflogwyr a busnesau lleol yn ogystal.

Polisi Derbyniadau
Mae'r Coleg yn gweithredu polisi derbyniadau hyblyg ac mae'n darparu ar gyfer anghenion unigol wrth gynllunio'r rhaglenni dysgu. Ar gyfer rhai rhaglenni mae gofynion mynediad penodol sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol a'u cyhoeddi ym mhrosbectws y Coleg.

Bwrsarïau/ysgoloriaethau
Mae hawl gan fyfyrwyr sydd wedi cofrestru yn y Coleg i wneud cais am gymorth ac ariannu amrywiol yn yr un modd ag unrhyw un sy'n astudio mewn addysg bellach neu uwch yng Nghymru. Y Coleg sy'n ariannu'r rhain.

Mae hawl gan fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg bellach yn y Coleg wneud cais am ddulliau cymorth amrywiol. Mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg ar gael i fyfyrwyr rhwng 16 ac 19 oed a Grant Dysgu'r Cynulliad ar gael i fyfyrwyr oed 19+. Mae grant y Bwrsari yn ddull amgen o gymorth sy'n cael ei ariannu drwy gronfeydd Mynediad y Coleg.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r Coleg hefyd yn gweinyddu mentrau eraill y gall myfyrwyr eu defnyddio. Mae cyfleusterau gofal plant â chymhorthdal, prydau am ddim a lwfansau teithio ar gael ynghyd â chymorth ariannol ar gyfer ymweliadau addysgol a chymhorthion astudio.

Gall myfyrwyr addysg uwch gael gafael ar ddulliau cymorth amgen. Gellir gwneud cais am Grant Dysgu'r Cynulliad neu Hepgor y Ffi Addysg Uwch yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol. Mae cronfeydd hefyd ar gael i fyfyrwyr AU mewn caledi ariannol. Mae'r Coleg yn cynnig cymorth ac arweiniad i fyfyrwyr yn y broses gwneud cais.

Ehangu Cyfranogiad
Mae'r Coleg yn cynnig amrywiaeth eang o raglenni ar gyfer gysgwyr o 14 oed. Gall lawer o ddysgwyr gael gafael ar gymorth grantiau fel ffordd o fynd i'r afael ag allgau cymdeithasol. O ran darpariaeth gymunedol, mae'r Coleg yn cynnig amrywiaeth eang o raglenni wedi'u hachredu sy'n cael eu cyfleu drwy bartneriaeth yn gweithio gyda'r cyngor bwrdeistref sirol lleol. Yn yr un modd, cynigir llawer o raglenni dysgu teuluol mewn lleoliadau cymunedol yn flynyddol.

Ymgysylltu â'r Gymuned
Mae'r Coleg yn cynnig cyfleusterau eraill sydd ar gael i fyfyrwyr, staff ac aelodau'r gymuned. Mae neuadd chwaraeon fawr ar gael i'w llogi ynghyd ag offer chwaraeon amrywiol. Codir tâl ar raddfeydd â chymhorthdal am gyfleusterau'r Coleg er mwyn sicrhau eu bod ar gael i bawb.

Adeilad Newydd
Ym mis Medi 2013, gwnaeth y Coleg adleoli o'i adeilad a agorwyd yn 1955, i Goleg newydd sbon wedi'i godi'n bwrpasol. Cafodd y Coleg newydd ei ariannu gan grant 100% gan Lywodraeth Cymru ac fe gostiodd £33 miliwn. Mae'r adeilad hwn wedi cynnig y cyfleuster diweddaraf un i fwrdeistref Merthyr Tudful a'r ardal gyfagos a fydd o fudd i ddysgwyr a'r gymuned ehangach.

Datganiad Er Budd y Cyhoedd am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018 (parhad)

Datganiad am gyfrifoldebau ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig ar gyfer dibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi adroddiad y Cyfarwyddwyr (yn cynnwys yr Adroddiad Strategol) a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith a rheoliadau perthnasol.
Mae cyfraith cwmnïau yn mynnu bod ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno mae'r ymddiriedolwyr wedi paratoi datganiadau ariannol y cwmni elusennol yn unol ag Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a deddf berthnasol), Deddf Cwmnïau 2006, y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a safonau cyfrifyddu perthnasol eraill. Yn ychwanegol, o fewn telerau ac amodau'r Memorandwm Ariannol a gytunwyd rhwng y cwmni elusennol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac o dan gyfraith cwmnïau, rhaid i ymddiriedolwyr beidio cymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg cywir a theg o'r sefyllfa sydd ohoni yn y cwmni elusennol ac o'r darpar adnoddau a'r defnydd o'r adnoddau, yn cynnwys incwm a gwariant, y cwmni elusennol am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, disgwylir i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu priodol a'u defnyddio'n gyson;
- parchu'r dulliau a'r egwyddorion yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir; Cyfrifyddu ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ofalus;
- datgan os cafodd Safonau Cyfrifyddu'r DU perthnasol eu dilyn, yn amodol ar unrhyw gam perthnasol a ddatgelir a'i egluro yn y datganiadau ariannol; a
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei fod yn anaddas tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

Cymerodd yr ymddiriedolwyr gamau rhesymol i fodloni eu cyfrifoldebau o ran y canlynol;

- cadw cofnodion cyfrifyddu teilwng sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y cwmni elusennol a datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y cwmni elusennol a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio gyda Deddf Cwmnïau 2006, y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir - Cyfrifyddu ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a safonau cyfrifyddu perthnasol eraill;
- sicrhau fod cronfeydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cael eu defnyddio'n unig ar gyfer y pwrpas y'u rhoddwyd ac yn unol â'r Memorandwm Ariannol gyda'r Cyngor Cyllido ac unrhyw amodau y gall y Cyngor Cyllido eu pennu o bryd i'w gilydd;
- sicrhau bod rheolyddion ariannol a rheoli addas mewn grym i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus a chronfeydd o ffynonellau eraill;
- diogelu asedau'r cwmni elusennol;
- cymryd camau rhesymol i rwystro a chanfod twyll ac anghysondebau eraill; a
- diogelu rheolaeth economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a gwariant y cwmni elusennol.

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am gynnal ac am unplygrwydd gwefan y cwmni elusennol. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli paratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaeth wahanol.

Datganiad datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Yn achos pob ymddiriedolwr mewn swydd ar y dyddiad y cymeradwyir adroddiad yr ymddiriedolwyr, mae'r canlynol yn berthnasol;

(a) cyn belled ag y bo'r ymddiriedolwr yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohoni; ac
(b) mae wedi cymryd pob cam y dylid fod wedi'i gymryd fel ymddiriedolwr er mwyn gwneud ef ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau fod archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Adroddiad archwilwyr annibynnol i Gorff Llywodraethu Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig (y "Sefydliad")

Adroddiad ar y datganiadau ariannol

Ein barn

Yn ein barn ni, mae datganiadau ariannol (y "datganiadau ariannol") Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig:

- yn rhoi golwg cywir a theg o amgylchiadau'r sefydliad ar 31 Gorffennaf 2018, ac o incwm a gwariant y sefydliad, a llifoedd arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol ag Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, yn cynnwys FRS 102 "Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon", a deddf berthnasol);
- wedi cael eu paratoi'n unol â gofynion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir – Cyfrifyddu ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch;
- wedi cael eu paratoi'n unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006; ac
- wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â gofynion y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol, oedd wedi'u cynnwys o fewn yr Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol (yr "Adroddiad Blynyddol"), sy'n cynnwys: Mantolen y sefydliad ar 31 Gorffennaf 2018; y Cyfrif Incwm a Gwariant am y flwyddyn ddaeth i ben bryd hynny; Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn am y flwyddyn ddaeth i ben bryd hynny; y Datganiad Llif Arian am y flwyddyn ddaeth i ben bryd hynny; y polisïau cyfrifyddu; a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, sy'n cynnwys gwybodaeth eglurhaol arall.

Sail am farn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safon Ryngwladol ar Archwilio (DU) ("ISAs (DU)") a deddf berthnasol. Disgrifir ymhellach ein cyfrifoldebau o dan ISAs (DU) yn adran cyfrifoldebau Archwilwyr am archwilio datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn credu bod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i fod yn sail i'n barn.

Annibyniaeth

Gwnaethom barhau'n annibynnol o'r sefydliad yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, sy'n cynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC), ac rydym wedi cyflawn ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw

Nid oes unrhyw beth gennym i'w adrodd ynglŷn â'r materion canlynol o ran yr hyn y mae ISAs (DU) yn mynnu ein bod yn adrodd i chi os:

- nad yw defnydd y Corff Llywodraethu o sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nad yw'r Corff Llywodraethu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol dynodedig a allai godi amheuon arwyddocaol ynghylch gallu'r sefydliad i barhau i arfer y sail gyfrifyddu busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad y rhoddwyd hawl i'r datganiadau ariannol gael eu cyhoeddi.

Er hynny, am nad oes modd darogan pob digwyddiad neu amodau yn y dyfodol, nid yw'r datganiad hwn yn warant ynghylch gallu'r sefydliad i barhau fel busnes hyfyw.

Adroddiad archwilwyr annibynnol i Gorff Llywodraethu Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig (y "Sefydliad") - (parhad)

Adrodd am wybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr holl wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilwyr arnynt. Y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw ein barn ni am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, o ganlyniad, nid ydym yn mynegi barn archwilio neu, heblaw i'r graddau a fynegir yn ddiamwys fel arall yn yr adroddiad hwn, unrhyw sicrwydd am hynny.

Ynglŷn â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried os yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn ei hanfod â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom yn yr archwiliad, neu fel arall yn ymddangos iddi gael ei chamddatgan yn ei hanfod. Os ydym yn canfod anghysondeb amlwg yn ei hanfod neu gamddatganiad yn ei hanfod, mae gofyn i ni arfer dulliau gweithredu i ddod i'r casgliad os oes camddatganiad yn ei hanfod yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad yn ei hanfod yn y wybodaeth arall. Os, yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, rydym yn dod i'r casgliad bod camddatganiad yn ei hanfod yn y wybodaeth arall, mae gofyn i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes unrhyw beth gennym i'w adrodd ar sail y cyfrifoldebau hyn.

O ran Adroddiad y Cyfarwyddwyr (yn cynnwys yr Adroddiad Strategol), gwnaethom hefyd ystyried os cafodd y datgeliadau y gofynnir amdanynt yn Neddf Cwmnïau 2006 y DU wedi'u cynnwys.

Yn seiliedig ar y cyfrifoldebau a ddisgrifir uchod a'n gwaith a gyflawnwyd wrth wneud yr archwiliad, mae ISAs (DU) yn disgwyl i ni hefyd adrodd safbwyntiau a materion fel y'u disgrifir isod.

Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr
Yn ein barn ni, yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod yr archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr (yn cynnwys yr Adroddiad Strategol) am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018 yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol ac wedi'i pharatoi yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol.

Yn sgil y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r sefydliad a'i amgylchedd a gafwyd wrth wneud yr archwiliad, ni wnaethom ganfod unrhyw gamddatganiadau yn eu hanfod yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr (yn cynnwys yr Adroddiad Strategol).

Cyfrifoldebau am y datganiadau ariannol a'r archwiliad

Cyfrifoldebau'r Corff Llywodraethu am y datganiadau ariannol
Fel sy'n cael ei egluro'n fwy trylwyr yn y Datganiad am Gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr a welir ar dudalen 9, y Corff Llywodraethu (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y sefydliad ar gyfer dibenion cyfraith cwmnïau) sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg cywir a theg. Mae'r Corff Llywodraethu hefyd yn gyfrifol am y rheolaeth fewnol y maent yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol nad oes ynddynt gamddatganiadau yn eu hanfod, naill ai oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol am asesu gallu'r sefydliad i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu os yn berthnasol, faterion yn ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio cyfrifyddu ar sail busnes hyfyw oni bai fod y Corff Llywodraethu'n bwriadu naill ai diddymu'r sefydliad neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddo ddewis amgen realistig ond i wneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilwyr am archwiliad y datganiadau ariannol
Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn cynnwys camddatganiadau yn eu hanfod, pa un ai oherwydd twyll neu wall, ac i gyhoeddi adroddiad archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn safon uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â safonau ISAs (DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad yn ei hanfod os yw'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu yn eu crynswth, y disgwylir iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilio.

Adroddiad archwilwyr annibynnol i Gorff Llywodraethu Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig (y "Sefydliad") - (parhad)

Defnyddio'r adroddiad hwn
Cafodd yr adroddiad hwn, yn cynnwys y safbwyntiau, ei baratoi ar gyfer, ac yn unig ar gyfer Bwrdd Llywodraethu'r sefydliad fel corff yn unol ag Erthygl 18 erthyglau llywodraethu'r sefydliad a Phennod 3 o Ran 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006 ac nid i'r un diben arall. Nid ydym, wrth fynegi'r safbwyntiau hyn, yn derbyn nac yn ymgymryd â chyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall nac i unrhyw berson arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo/iddi neu i ddwylo pwy bynnag y daw heblaw os cytunwyd hynny'n ffurfiol gyda'n cydsyniad blaenorol ysgrifenedig ni.

Adrodd gofynnol arall

Safbwyntiau ar faterion eraill a ragnodir yng Nghod Ymarfer Archwiliad Addysg Bellach 2015 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ein barn ni, ynghylch pob mater perthnasol:

- mae arian a wariwyd o grantiau Llywodraeth Cymru a chronfeydd eraill o ba bynnag ffynhonnell a weinyddwyd gan y sefydliad ar gyfer dibenion penodol wedi'i ddefnyddio'n gywir ar gyfer y dibenion hynny ac, os yn briodol, wedi'i reoli i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol; a
- cafodd incwm ei ddefnyddio'n unol â'r memorandwm ariannol gyda Llywodraeth Cymru.

Digonolrwydd cofnodion cyfrifyddu a gwybodaeth ac esboniadau a dderbyniwyd

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006 mae gofyn i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- na chawsom yr holl wybodaeth a'r esboniadau rydym eu hangen ar gyfer ein harchwiliad; neu
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan y sefydliad, neu na dderbyniwyd manylion digonol ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau na wnaethom ymweld â hwy; neu
- nad yw datganiadau ariannol y rhiant-sefydliad yn cyd-fynd â chofnodion a manylion y cyfrifon.

Nid oes eithriadau gennym i'w hadrodd yn deillio o'r cyfrifoldeb hwn.

Cydnabyddiaeth ariannol i Gyfarwyddwyr

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006 mae gofyn i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni, na ddatgelir rhai taliadau cydnabyddiaeth ariannol a enwir gan y gyfraith. Nid oes eithriadau gennym i'w hadrodd yn deillio o'r cyfrifoldeb hwn.

Kevin Williams (Uwch Archwilydd Statudol)
dros ac ar ran PricewaterhouseCoopers LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Caerdydd

Tachwedd 2018

Rhif Cofrestru'r Cwmni 6671721

Cyfrif Incwm a Gwariant am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018

	Nodyn	2018	2017 Ailddatganedig
		£'000	£'000
Incwm			
Grantiau cyrff ariannu	1	**10,466**	10,777
Ffioedd dysgu a chontractau addysg	2	**1,773**	1,691
Incwm arall	3	**1,507**	1,505
Incwm buddsoddi		**15**	15
Cyfanswm incwm		**13,761**	13,988
Gwariant			
Costau staff	4	**9,022**	8,782
Costau staff - ailstrwythuro	4	**113**	163
Treuliau gweithredol eraill		**2,556**	2,589
Amorteiddiad	10	**25**	19
Dibrisiant	11	**1,642**	2,102
Llog a chostau cyllid eraill	6	**170**	139
Cyfanswm gwariant		**13,528**	13,794
Gwarged am y flwyddyn		**233**	194
Enillion / (colledion) actwaraidd o ran cynlluniau pensiwn	20	**1,257**	(377)
Cyfanswm incwm / (gwariant) cyflawn am y flwyddyn		**1,490**	(183)

Mae pob eitem incwm a gwariant yn ymwneud â gweithgareddau parhaus. Nid oes gwahaniaeth yn ei hanfod rhwng y gwarged / (diffyg) am y blynyddoedd a gadwyd o fewn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol a enwir uchod a'r hyn sy'n cyfateb i'w cost hanesyddol.

Datganiad o Newid mewn Cronfeydd Wrth Gefn am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018

	£'000
Balans ar 1 Awst 2017	**(955)**
Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant	233
Treuliau cyffredinol eraill	1257
Cyfanswm incwm cyffredinol am y flwyddyn	1,490
Balans ar 31 Gorffennaf 2018	**535**

Mae'r cwmni hwn yn gyfyngedig trwy warant ac yn cynnwys un aelod.

Rhif Cofrestru'r Cwmni 6671721

Mantolen ar 31 Gorffennaf 2018

	Nodyn	2018 £'000	2017 £'000
Asedau anghyfredol			
Asedau anniriaethol	10	**69**	33
Asedau sefydlog	11	**29,103**	29,835
Asedau cyfredol			
Stoc	12	**15**	15
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	13	**1,161**	1,762
Arian yn y banc ac mewn llaw		**4,561**	3,691
		5,737	5,468
Credydwyr: symiau dyladwy o fewn un flwyddyn	14	**(2,265)**	(3,155)
Asedau cyfredol net		**3,472**	2,313
Cyfanswm asedau llai dyledion cyfredol		**32,644**	32,181
Credydwyr: symiau dyladwy ar ôl mwy nac un flwyddyn	15	**(25,400)**	(25,481)
Darpariaethau			
Darpariaethau pensiwn	16	**(6,396)**	(7,157)
Darpariaethau eraill	16	**(313)**	(498)
Cyfanswm (dyledion) net		**535**	(955)
Cronfeydd Anghyfyngedig Wrth Gefn		**535**	(955)
Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn		**535**	**(955)**

Cafodd y datganiadau ariannol ar dudalennau 13 i 29 eu cymeradwyo gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ym mis Tachwedd 2018 ac arwyddwyd ar ei ran gan:

Mrs H Mansfield
Cadeirydd

Datganiad Llif Arian am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018

		2018	2017
		£'000	£'000
Llif arian o weithgareddau gweithredu			
Gwarged am y flwyddyn		**233**	194
Addasiad ar gyfer eitemau heb fod yn arian parod			
Dibrisiant		**1,642**	2,102
Amorteiddio eitemau anniriaethol		**25**	19
Cynnydd mewn stoc		**-**	(3)
Lleihad/(cynnydd) mewn dyledwyr		**601**	(328)
Lleihad mewn credydwyr		**(971)**	(995)
Costau pensiwn LGPS llai cyfraniadau taladwy		**(761)**	786
Enillion / (colledion) actwaraidd o ran cynlluniau pensiwn		**1,257**	(377)
(Lleihad)/cynnydd mewn darpariaethau eraill		**(185)**	77
Addasiad ar gyfer buddsoddi neu ariannu gweithgareddau			
Incwm buddsoddi		**(15)**	(15)
Incwm grant cyfalaf		**(1,458)**	(1,977)
All-lif arian clir o weithgareddau gweithredu		**368**	(517)
Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi			
Derbyniadau grantiau cyfalaf		**1,458**	1,977
Incwm buddsoddi		**15**	15
Taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog		**(910)**	(587)
Taliadau a wnaed i gaffael asedau anniriaethol		**(61)**	(4)
Mewnlif arian clir o weithgareddau buddsoddi	**502**		1,301
Cynnydd / (lleihad) mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y flwyddyn		**870**	784
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn		**3,691**	2,907
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn		**4,561**	3,691

Polisïau Cyfrifyddu

Sail y Paratoi

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu paratoi yn unol â Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2015 ac yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol (FRS 102). Mae'r Coleg yn endid er budd y cyhoedd ac felly mae wedi gweithredu'r gofyniad er budd y cyhoedd perthnasol. Mae'r datganiadau ariannol yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol. Cafodd Incwm y Flwyddyn Flaenorol ei ailddatgan i amlygu ailddosbarthiad Incwm Grant nad oedd yn bodloni diffiniad ymchwil Frascati o 'Grantiau a Chontractau Ymchwil' i 'Incwm Arall'.

Cydnabyddiaeth o incwm

Mae grantiau cyrff ariannu'n cael eu cyfrif yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

Caiff incwm dysgu ei ddatgan yn gros ac yn cael ei gredydu i'r cyfrif incwm a gwariant dros y cyfnod y bydd myfyrwyr yn astudio.

Mae incwm rheolaidd o grantiau, contractau a gwasanaethau eraill a gyflwynir yn cael eu cyfrif ar sail croniadau ac yn cael ei gynnwys nes bydd y contract neu'r gwasanaeth dan sylw wedi'i gwblhau; mae unrhyw daliadau a dderbynnir ymlaen llaw am gyflawniad o'r fath yn cael eu cydnabod ar y fantolen fel dyledion.

Mae grantiau afreolaidd a dderbynnir o ran caffael neu adeiladu asedau sefydlog yn cael eu trin fel grantiau cyfalaf gohiriedig. Mae grantiau o'r fath yn cael eu credydu i grantiau cyfalaf gohiriedig a gwneir trosglwyddiad blynyddol i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd ddefnyddiol yr ased, ar yr un gyfradd â'r tâl dibrisiant ar yr ased y rhoddwyd y grant amdano.

Mae incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau yn cael ei gredydu i'r cyfrif incwm a gwariant pan fydd y nwyddau neu'r gwasanaethau'n cael eu cyfleu i'r cwsmeriaid allanol neu pan fydd telerau'r contract wedi'u bodloni.

Caiff incwm buddsoddi ei gredydu i'r cyfrif incwm a gwariant ar sail dderbyniadwy.

Cynlluniau Pensiwn

Mae budd-daliadau ymddeol i weithwyr y Cwmni'n cael eu darparu gan Asiantaeth Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS) a Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf (RCTPF), Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS). Mae RCTPF yn gynllun â buddion wedi'u diffinio sy'n cael ei ariannu'n allanol ac wedi'i eithrio o Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar sail Enillion.

Nid yw'n bosibl canfod rhan pob sefydliad o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol o ran y TPS ac felly, mae cyfraniadau i'r cynllun yn cael eu cyfrif fel pe bai'n gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio, a'r gost a nodir o fewn y cyfrif elw a cholled yn gyfartal â'r cyfraniadau oedd yn daladwy i'r cynllun am y cyfnod.

Caiff asedau LGPS eu mesur gan ddefnyddio gwerthoedd marchnadol terfynol. Caiff rhwymedigaethau LGPS eu mesur gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau ac yn cael eu disgowntio ar y gyfradd adennill gyfredol ar fond corfforaethol ansawdd uchel o gyfnod ac arian cyfred cyfwerth â'r rhwymedigaeth. Mae'r cynnydd yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun y disgwylir iddo godi yn sgil gwasanaeth gweithwyr yn ystod y cyfnod yn cael ei osod yn erbyn y gwariant gweithredu. Mae'r adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun a'r cynnydd yn ystod y cyfnod yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun, oherwydd treigl amser, yn cael eu cynnwys yng nghostau ariannu pensiwn. Caiff enillion a cholledion actwaraidd eu canfod yn y datganiad incwm cyflawn.

Darpariaeth Ymddeoliad Cynnar

Mae'r Cwmni'n cynnal darpariaeth i fodloni costau pensiwn sy'n deillio o flynyddoedd ychwanegol o wasanaeth a roddir i rai aelodau o staff sy'n ymddeol yn gynnar.

Caiff darpariaethau eu datblygu a bydd y costau cysylltiedig yn cael eu gosod yn erbyn y cyfrif incwm a gwariant pan fydd gan y Coleg rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol. Mae'r ddarpariaeth yn ymwneud â threfniadau cynyddu gwerth pensiwn athrawon heb ei ariannu a sefydlwyd gan y Coleg. Mae'r rhain yn fudd-daliadau terfynu a wneir ar sail disgresiwn wrth ymddeol yn gynnar, o ran y Cynllun Pensiwn Athrawon.

Polisïau Cyfrifyddu (parhad)

Budd-daliadau Cyflogaeth
Mae budd-daliadau cyflogaeth tymor byr megis cyflogau ac absenoldebau digolledol yn cael eu trin fel cost yn y flwyddyn y bydd gweithwyr cyflogedig yn cyfleu gwasanaeth i'r Coleg. Caiff pob budd-dal nas defnyddir eu cronni a'u mesur fel y swm ychwanegol y mae'r Coleg yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i'r hawl nas defnyddiwyd.

Prydlesi Gweithredu
Mae rhenti a delir o dan brydlesi gweithredu'n cael eu gosod yn y cyfrif incwm a gwariant ar sail linol dros gyfnod y brydles.

Arian cyfred tramor
Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu cyfieithu yn ôl cyfradd y gyfnewidfa dramor sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodiad. Mae asedau a dyledion ariannol a nodir mewn arian cyfred tramor ar ddyddiad y fantolen yn cael eu cyfieithu yn ôl cyfradd y gyfnewidfa dramor sydd mewn grym ar y dyddiad hwnnw. Mae gwahaniaethau cyfnewidfa dramor sy'n deillio o gyfieithiad yn cael eu nodi yn y Gwarged neu'r Diffyg.

Asedau anniriaethol
Mae asedau anniriaethol sy'n cynnwys meddalwedd yn cael eu hamorteiddio dros 4 blynedd sef amcangyfrif o oes economaidd yr ased.

Asedau Diriaethol Sefydlog
Caiff asedau diriaethol sefydlog eu cofnodi ar y pris y'u prynwyd, yn cynnwys TAW na ellir ei hadennill, mân gostau caffael, llai dibrisiant cronedig a cholledion amhariad cronedig.

Cyflwynir dibrisiant ar yr holl asedau diriaethol sefydlog ar raddfeydd sydd wedi'u cyfrifo i ddileu'r gost, llai amcangyfrif o werth gweddilliol pob ased, yn gyson dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig, fel y nodir isod.

Y prif gyfraddau at y diben hwn yw:

Adeiladau	- hyd at 50 mlynedd yn llinol
Gosodiadau a ffitiadau	- rhwng 3-25 blynedd yn llinol
Peiriannau a pheirianwaith	- rhwng 3-40 blynedd yn llinol

Nid yw tir yn dibrisio.

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cynnwys cost prynu, adeiladu a gosod asedau diriaethol sefydlog cyn iddynt gael eu defnyddio'n gynhyrchiol. Ni chynhwysir dibrisiant ar asedau sydd ar y gweill nes y byddant wedi'u trosglwyddo i'r pennawd ased priodol wrth iddynt ddechrau cael eu defnyddio.

Tir ac adeiladau
Cynhwysir buddiant rhydd-ddaliadol mewn tir ac adeiladau yn y fantolen am y gost. Mae tir ac adeiladau a gaffaelwyd, adeiladau a adeiladwyd neu adeiladau a adnewyddwyd yn ystod y flwyddyn, yn cael eu cynnwys am y gost llai dibrisiant.

Caiff costau cyllid mae modd eu priodoli'n uniongyrchol i adeiladu asedau sefydlog eu cyfalafu'n rhan o'r asedau hynny.

Asedau a Ariennir gan Grant Cyfalaf neu Roddion
Pan fydd asedau sefydlog yn cael eu caffael gyda chymorth grantiau a rhoddion penodol, maent yn cael eu cyfalafu a'u dibrisio fel uchod. Caiff y grantiau neu roddion cysylltiedig eu credydu i grantiau cyfalaf gohiriedig, a'u gosod yn y cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased cysylltiedig ar sail sy'n gyson â'r polisi dibrisiant.

Stoc
Mae stoc yn cael ei brisio ar y gost a'r gwerth realeiddiadwy net isaf.

Polisïau Cyfrifyddu (parhad)

Darpariaethau

Bydd darpariaethau'n cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol pan fydd y canlynol yn berthnasol :

(a) Mae gan y Coleg rwymedigaeth gyfredol (cyfreithiol neu adeiladol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;
(b) Mae'n debygol y bydd angen all-lif o fudd-daliadau economaidd i ddod i gytundeb ar y rhwymedigaeth; a
(c) Gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth.

Daw rhwymedigaeth ddigwyddiadol o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n gosod rhwymedigaeth bosibl ar y Coleg; rhwymedigaeth y caiff ei bodolaeth yn unig ei chadarnhau os bydd digwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o dan reolaeth y Coleg yn digwydd neu beidio. Mae rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau pan fyddai darpariaeth wedi'i gwneud fel arall ond nad yw'n debygol y byddai angen all-lif o adnoddau neu nad oes modd mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Mae ased digwyddiadol yn codi pan gafwyd digwyddiad sy'n rhoi ased posibl i'r Coleg y caiff ei fodolaeth yn unig ei gadarnhau os bydd digwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o dan reolaeth y Coleg yn digwydd neu beidio.

Nid yw asedau na rhwymedigaethau digwyddiadol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen ond maent yn cael eu datgelu yn y nodiadau.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018

1. Ffioedd dysgu a chontractau addysg

	2018	2017
	£'000	£'000
Myfyrwyr llawn amser cartref ac o'r UE	**1,567**	1,423
Myfyrwyr rhan amser	**206**	268
	1,773	1,691

2. Grantiau cyrff ariannu

	2018	2017
	£'000	£'000
Grant rheolaidd	**8,304**	8,096
Grantiau penodol	**704**	705
Grant Cyfalaf	**1,458**	1,976
	10,466	10,777

3. Incwm Arall

	2018	2017
	£'000	£'000
Prosiectau Ewropeaidd	**893**	688
Meithrinfa	**398**	423
Amrywiol	**216**	394
	1,507	1,505

4. Costau staff

	2018	2017
	£'000	£'000
Cyflogau	**6,892**	6,770
Costau nawdd cymdeithasol	**709**	704
Costau pensiwn eraill	**1,421**	1,308
	9,022	8,782
Costau ailstrwythuro	**113**	163

	2018	2017
	£'000	£'000
Enillion y Pennaeth		
Cyflog	**102**	101
Pensiynau	**16**	15
	118	116

Heblaw am y Pennaeth nid oes cyfarwyddwyr eraill yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018 (parhad)

Cydnabyddiaeth ariannol i Staff Cyflog Uwch eraill, ac eithrio cyfraniadau pensiwn y cyflogwr (ac eithrio colli swydd):

	2018	2017
	Nifer	**Nifer**
£50,000 - £59,999	**-**	-
£60,000 - £69,999	**2**	2
£70,000 - £79,999	**1**	1
£80,000 - £89,999	**-**	-
£90,000 - £99,999	**-**	-
£100,000 - £109,999	**1**	1

Mae budd-daliadau ymddeol yn cronni i 103 o weithwyr cyflogedig o dan gynllun â buddion wedi'u diffinio.

Roedd cyfartaledd misol y nifer o weithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn (FTE) (yn cynnwys uwch ddeiliaid swydd) yn ôl y prif gategorïau yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	2018	2017
	Nifer	**Nifer**
Academaidd	**156**	153
Rheoli ac arbenigol	**20**	17
Technegol	**4**	5
Arall	**39**	39
	219	214

5. Treuliau cyfarwyddwyr a thrafodion partïon perthynol

Ni thalwyd treuliau i gyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn (2017 – dim). Nid oedd gan unrhyw Gyfarwyddwr na pherson arall â pherthynas â'r Coleg unrhyw ddiddordeb personol mewn unrhyw gontract na thrafodiad yr ymunodd y Coleg ag ef yn ystod y flwyddyn.

6. Llog a chostau cyllidol eraill

	2018	2017
	£'000	**£'000**
Tâl net ar gynllun pensiwn	**170**	139

Nodiadau i'r datganiadau ariannol am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018 (parhad)

7. Dadansoddiad o wariant yn ôl gweithgaredd

	2018	2017
	£'000	£'000
Gwariant academaidd a chysylltiedig	**7,585**	8,033
Gweinyddol a gwasanaethau canolog	**2,086**	2,038
Safleoedd (yn cynnwys costau consesiynau gwasanaeth)	**2,274**	2,119
Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau	**33**	23
Treuliau eraill	**1,550**	1,581
	13,528	13,794

Roedd treuliau gweithredu eraill yn cynnwys:

Cydnabyddiaeth i archwilwyr allanol am wasanaethau archwilio	**14**	10
Cydnabyddiaeth i archwilwyr allanol am wasanaethau eraill	**6**	1
Gweithredu rhentu Les		
Tir ac Adeiladau	**105**	103
Arall	**3**	10

8. Trethiant ar yr elw am y flwyddyn

Mae'r Coleg yn elusen wedi'i chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau rhif 1140289 ac o'r herwydd mae'n elusen o fewn ystyr Para 1 o Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010. O ganlyniad, gall y Coleg fod wedi'i eithrio o drethiant o ran incwm neu enillion cyfalaf a dderbynnir o fewn categorïau a gynhwysir yn Adrannau 478 i 488 Ddeddf Trethi Corfforaeth 2010 (CTA 2010) (a ddeddfwyd cyn hynny gan Adran 505 o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988 (ICTA) neu Adran 256 Deddf Trethu Enillion Trethadwy 1992) i'r graddau fod incwm neu enillion o'r fath yn cael eu defnyddio'n unswydd ar gyfer dibenion elusennol. Nid yw'r Coleg yn derbyn eithriad o'r fath o ran Treth ar Werth. Mae TAW na ellir ei hadennill ar fewnbynnau yn cael ei chynnwys yng nghost y mewnbynnau hynny.

9. Difidendau

Ni thalwyd ac ni chynigiwyd difidendau yn ystod y flwyddyn (2016 - dim).

10. Asedau anniriaethol

	2018	2017
Meddalwedd	**£'000**	**£'000**
Cost		
Balans agoriadol	**110**	106
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	**61**	4
Balans terfynol	**171**	110
Amorteiddiad Cronedig		
Balans agoriadol	**77**	58
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	**25**	19
Balans terfynol	**102**	77
Gwerth net ar y llyfrau	**69**	**33**

Nodiadau i'r datganiadau ariannol am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018 (parhad)

11. Asedau sefydlog

	Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliad	Peiriannau a Pheirianwaith	Gosodiadau a Ffitiadau	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost				
Ar 1 Awst 2017	30,947	5,174	2,807	38,928
Ychwanegiadau	372	105	433	910
Ar 31 Gorffennaf 2018	**31,319**	**5,279**	**3,240**	**39,838**
Dibrisiant cronedig				
Ar 1 Awst 2017	2,804	4,404	1,885	9,093
Tâl am y flwyddyn	587	481	574	1,642
Ar 31 Gorffennaf 2018	**3,391**	**4,885**	**2,459**	**10,735**
Gwerth net ar y llyfrau				
Ar 31 Gorffennaf 2018	**27,928**	**394**	**781**	**29,103**
Ar 31 Gorffennaf 2017	**28,143**	**770**	**922**	**29,835**

12. Stoc

	2018	2017
	£'000	£'000
Stoc	**15**	15

13. Masnach a symiau derbyniadwy eraill

	2018	2017
	£'000	£'000
Symiau dyledus o fewn un flwyddyn:		
Masnach dderbyniadwy	**188**	230
Symiau derbyniadwy eraill	**711**	309
Rhagdaliadau ac incwm cronnus	**262**	190
Symiau dyledus gan fentrau grŵp	**-**	1,033
	1,161	1,762

Nodiadau i'r datganiadau ariannol am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018 (parhad)

14. Credydwyr: symiau dyledus o fewn un flwyddyn

	2018	2017
	£'000	£'000
Symiau dyledus o fewn un flwyddyn:		
Taliadau masnach	**41**	218
Symiau dyledus i fentrau grŵp	**43**	297
Grant Cyfalaf gohiriedig	**684**	1,449
Nawdd Cymdeithasol a thaliadau trethiant eraill	**478**	160
Croniadau ac incwm gohiriedig	**1,019**	1,031
	2,265	3,155

15. Credydwyr: symiau dyledus wedi mwy nag un flwyddyn

	2018	2017
	£'000	£'000
Symiau dyledus wedi mwy nag un flwyddyn:		
Grant Cyfalaf gohiriedig	**25,400**	25,481

16. Darpariaethau

Darpariaethau Pensiwn

	Cynnydd mewn Pensiwn wrth derfynu	Rhwymedigaeth Buddion wedi'u Diffinio (gweler Nodyn 20)	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000
Cost			
Ar 1 Awst 2017	790	6,367	**7,157**
Defnyddiwyd yn y flwyddyn	(48)	-	**(48)**
Ychwanegiadau	-	(713)	**(713)**
Ar 31 Gorffennaf 2018	742	5,654	**6,396**

Darpariaethau Eraill

	Anghydfodau Cyfreithiol	Darpariaeth TAW	Tâl Gwyliau	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost				
Ar 1 Awst 2017	133	82	283	**498**
Defnyddiwyd yn y flwyddyn	-	(55)	-	**(55)**
Rhyddhawyd yn y flwyddyn	(133)	-	-	**(133)**
Ychwanegiadau	-	-	3	**3**
Ar 31 Gorffennaf 2018	-	27	286	**313**

Nodiadau i'r datganiadau ariannol am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018 (parhad)

17. Cronfeydd

	Cronfeydd Eraill	Cronfa Elw a Cholled	Cronfa Bensiwn	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar 1 Awst 2017	2,168	3,244	(6,367)	(955)
Gwarged am y flwyddyn	**-**	**233**	**-**	**233**
Trosglwyddo rhwng cronfeydd	**-**	**544**	**(544)**	**-**
Enillion actwaraidd ar y cynllun pensiwn	**-**	**-**	**1,257**	**1,257**
Ar 31 Gorffennaf 2018	**2,168**	**4,021**	**(5,654)**	**535**

Deilliodd cronfeydd eraill wrth ymgorffori sef yr asedau a'r rhwymedigaethau a drosglwyddwyd o Brifysgol De Cymru gyda £197K yn ychwanegol am ail-werthuso Tir ac Adeiladau ar 1 Awst 2014.

Mae'r cwmni'n gyfyngedig trwy warant ac yn cynnwys un aelod.

18. Rhwymedigaethau prydles

Cyfanswm rhenti taladwy o dan brydlesi gweithredol:

	Tir ac Adeiladau £'000	Peiriannau a Pheirianwaith £'000	2018 Cyfanswm £'000	2017 Cyfanswm £'000
Taladwy yn ystod y flwyddyn	105	3	**108**	113
Taliadau lleiafswm prydles y dyfodol dyledus:				
Dim hwyrach nag 1 flwyddyn	108	3	**111**	109
Hwyrach nag 1 flwyddyn a dim llai na 5 mlynedd	452	14	**466**	447
Hwyrach na 5 mlynedd	119	-	**119**	236
Cyfanswm taliadau prydles dyledus	679	17	**696**	792

19. Trafodion partïon perthynol

Mae'r Coleg yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Prifysgol De Cymru, ac yn cael ei gynnwys yn natganiadau ariannol cyfunol Prifysgol De Cymru, sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae'r Coleg wedi'i eithrio o dan delerau FRS 102 rhag datgelu trafodion partïon perthynol gydag endidau sy'n rhan o Brifysgol De Cymru.

Oherwydd anian gweithrediadau'r Coleg a chyfansoddiad Bwrdd y Cyfarwyddwyr (sy'n dod o sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat lleol), mae'n debygol y bydd trafodion yn digwydd gyda sefydliadau y gallai aelod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr fod â diddordeb ynddynt. Mae'r holl drafodion sy'n ymwneud â sefydliadau y gall fod gan aelod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr ddiddordeb ynddynt yn cael eu cynnal yn unol â rheoliadau ariannol y Coleg a dulliau gweithredu caffael arferol.

Heblaw am y rhai a ddatgelir yn rhywle arall yn y datganiadau ariannol, ni chafodd trafodion eu canfod a fyddai'n cael eu datgelu o dan Ddatgeliadau Partïon Perthynol FRS102.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018 (parhad)

20. Pensiynau

Mae'r Cwmni'n cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn, Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf (RCTPF) ar gyfer staff anacademaidd, a'r Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS) ar gyfer staff academaidd.

TPS

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn gynllun cyfrannol "sector cyfan" ar gyfer staff academaidd a weinyddir gan yr Asiantaeth Pensiynau Athrawon ar ran yr Adran Addysg a Sgiliau. Mae'r cynllun, nad oes ganddo gronfa ond yn hytrach sy'n gweithredu ar sail 'talu wrth fynd', yn agored i brisiad actwaraidd bob pum mlynedd er mwyn penderfynu'r cyfraddau cyfrannu "sector cyfan". Cafwyd prisiad actwaraidd diweddaraf y cynllun ar 31 Mawrth 2012. Mae cost cynnydd pensiwn ar hyn o bryd wedi'i eithrio o'r prisiad ac nid yw gweithwyr cyflogedig na chyflogwyr yn cyfrannu at y gwerth ychwanegol hyn i'r gweithiwr cyflogedig, sy'n cael ei gyflawni'n uniongyrchol gan y Trysorlys.

Cyfradd y cyfraniadau yn ystod y flwyddyn oedd 16.48%.

Nid oes modd canfod cyfran pob sefydliad o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol y cynllun ac felly mae cyfraniadau i'r cynllun yn cael eu cyfrifo fel pe bai'n gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio. Mae'r gost a welir o fewn y cyfrif Incwm a Gwariant o £609k (2017: £620k) yn hafal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am y flwyddyn.

RCTPF

Mae'r cynllun yn gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio, sy'n cynnig buddion ymddeol i gyfranogwyr wrth ymddeol a buddion i'w dibynyddion pan fyddant yn marw. Mae buddion cyn Ebrill 2014 wedi'u cysylltu â chyflog a gwasanaeth pensiwn terfynol ar y dyddiad ymddeol (neu ddyddiad gadael y cynllun os cyn hynny), mae buddion ar ôl Mawrth 2014 yn cronni ar sail Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio (CARE).

Caiff y cynllun ei brisio bob tair blynedd, y diweddaraf wedi'i gyflawni gan actiwariaid ymgynghorol annibynnol ar 31 Mawrth 2016.

Cafodd rhwymedigaethau eu hamcangyfrif gan yr actwari cymwysedig annibynnol ar sail actwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd.

Yn unol â gofynion Safon Adrodd Ariannol 102, gwnaeth yr actiwariaid ymgynghorol, Pension Watch Cyf, ddiweddaru canlyniadau prisiad actwaraidd Mawrth 2016 er mwyn darganfod prisiad yr "is-gronfeydd" yn y cynllun ar 31 Gorffennaf 2018.

Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actwari yn y cyswllt hwn oedd:-

	2018	**2017**	**2016**
	%	%	%
Cyfradd ddisgownt / incwm llog ar asedau	2.75	2.75	2.60
Cynnydd cyffredinol mewn cyflogau pensiynadwy	3.30	3.30	2.75
Cynnydd pensiwn CPI	2.30	2.30	1.75

Mae'r tybiaethau marwolaeth cyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer gwelliant yn y cyfraddau marwolaeth yn y dyfodol. Disgwyliadau oes tybiedig o ymddeol heddiw ac yn oedran 65 yw:-

	2018 Nifer	**2017 Nifer**
Ymddeol Heddiw:		
Dynion	22.1	22.2
Menywod	24.0	24.1

Nodiadau i'r datganiadau ariannol am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018 (parhad)

	2018 Nifer	2017 Nifer
Ymddeol mewn 20 mlynedd:		
Dynion	23.8	23.9
Menywod	25.8	25.9

Mae'r asedau yn y cynllun wedi'u prisio ar werth teg ac yn cynnwys:

	2018 £000	2017 £000
Ecwitïau	8,357	7,884
Bondiau Llywodraeth	1,457	909
Bondiau Corfforaethol	1,289	1,039
Eiddo	650	592
Arian parod	289	161
	12,042	10,585

Dadansoddiad o'r symiau a ddangosir yn y fantolen

	2018 £'000	2017 £'000	2016 £'000	2015 £'000	2014 £'000
Amcangyfrif o gyfran o'r asedau	12,042	10,585	9,430	8,260	7,040
Gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun	(17,696)	(16,952)	(14,890)	(12,420)	(10,450)
Diffyg yn y cynllun – rhwymedigaethau net y pensiwn	(5,654)	(6,367)	(5,460)	(4,160)	(3,410)

Dadansoddiad o'r swm a godir ar gostau staff o fewn y gwarged gweithredol

	2018 £000	2017 £000
Cost gyfredol y gwasanaeth	773	666
Cost orffennol y gwasanaeth	-	25
	773	691

Dadansoddiad o'r swm a godir ar log taladwy a chostau tebyg

	2018 £000	2017 £000
Incwm llog ar asedau	(295)	(247)
Llog ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	465	386
Tâl net	170	139

Nodiadau i'r datganiadau ariannol am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018 (parhad)

Dadansoddiad o'r swm a welir yn y cyfrif incwm a gwariant	2018 £000	2018 £000	2017 £000
Ennill / (colled) actwaraidd ar asedau	860		730
Newidiadau mewn tybiaethau wrth wraidd gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun	1,552		(130)
Enillion union ar asedau	(1,155)		(977)
Colled actwaraidd a welir yn y cyfrif incwm a gwariant	1,257		(377)

Symudiad mewn diffyg yn ystod y flwyddyn	2018 £000	2017 £000
1 Awst	(6,367)	(5,460)
Cost gyfredol y gwasanaeth	(773)	(682)
Cyfraniadau	399	316
Costau gorffennol y gwasanaeth	-	(25)
(Incwm) / tâl cyllid arall	(170)	(139)
Actwaraidd (colled)	1,257	(377)
31 Gorffennaf	(5,654)	(6,367)

Dadansoddiad o symudiad yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun	2018 £000	2017 £000
Gwerth cyfredol cychwynnol rhwymedigaethau	16,952	14,890
Cost gyfredol y gwasanaeth	773	682
Cost orffennol y gwasanaeth	-	25
Cost llog	465	386
Cyfraniadau gan gyfranogwyr	153	144
(Ennill) / colled actwaraidd ar rwymedigaethau	(397)	1,093
Buddion net a dalwyd	(250)	(268)
Gwerth cyfredol terfynol rhwymedigaethau	17,696	16,952

Dadansoddiad o symudiad yng ngwerth marchnadol asedau'r cynllun	2018 £000	2017 £000
Gwerth teg cychwynnol asedau	10,585	9,430
Incwm llog ar asedau	295	247
(Ennill) / colled actwaraidd ar asedau	860	730
Cyfraniadau gan y Cyflogwr	410	316
Cyfraniadau gan y cyfranogwyr	153	143
Buddion net a dalwyd (allan)	(249)	(268)
Treuliau gweinyddol	(12)	(13)
Gwerth teg terfynol asedau	12,042	10,585

Nodiadau i'r datganiadau ariannol am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018 (parhad)

Hanes profiad enillon a cholledion

	2018 £'000	2017 £'000	2016 £'000	2015 £'000	2014 £'000
Ennill / colled actwaraidd ar asedau	860	730	720	610	850
Newidiadau mewn tybiaethau wrth wraidd gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun	1,552	(130)	(650)	(200)	(20)
Enillion union ar asedau	(1,155)	(977)	(1,030)	(900)	(1,220)
Cyfanswm a welir yn y cyfrif incwm a gwariant	1,257	(377)	(960)	(490)	(390)

21. Menter derfynol y rhiant-gwmni

Menter derfynol y rhiant-gwmni a'r parti llywodraethol yw Prifysgol De Cymru, Corfforaeth Addysg Uwch a sefydlwyd o dan Ddeddf Diwygio Addysg 1988. Cafodd canlyniadau'r Cwmni eu hymgorffori yn natganiadau ariannol cyfunol Prifysgol De Cymru, y grŵp mwyaf a'r lleiaf y mae datganiadau ariannol y Cwmni wedi'u cyfuno ar eu cyfer, ac mae copïau ohonynt ar gael o'r cyfeiriad canlynol:

Prifysgol De Cymru
Pontypridd
Rhondda Cynon Taf
CF37 1DL

22. Gweithgaredd Ôl-fantolen

Ar 1 Awst 2018, daeth Cwmni Tydfil Training Cyfyngedig, cwmni elusennol yn ymwneud yn bennaf â chynnig hyfforddiant dysgu'n seiliedig ar waith, i feddiant y Coleg. Yn ogystal, mae'r sefydliad yn cyfleu contractau eraill yn ymwneud ag addysg a chyflogaeth ar gyfer sefydliadau megis Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful, CGGC ac Ymddiriedolaeth y Tywysog.

Roedd trosiant Cwmni Tydfil Training am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2018 tua £948,000 a'i asedau net, fel y'u cofnodwyd yn y cyfrifon drafft, tua £850,000 wrth ddod i feddiant y Coleg. Ers dod i feddiant y Coleg, mae timau rheoli'r Coleg a Chwmni Tydfil Training wedi bod yn cydweithio i elwa i'r eithaf ar y manteision i'r ddau barti. Drwy gyfuno ein hadnoddau a'n sgiliau, bydd yn rhoi'r potensial mwyaf i'r corff newydd fanteisio i'r eithaf ar y cynnig gan y contract "Cymru'n Gweithio" a gomisiynwyd yn ddiweddar.